**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (MAN I'R GORLLEWIN O LANGOLLEN, SIR DDINBYCH) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi. Daw'r Gorchymyn i rym ar 10 Tachwedd 2023.

Effaith y Gorchymyn yw cyflwyno terfyn cyflymder 40 mya ar y darn o gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o bwynt 231 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B5103 ym Merwyn, man i'r gorllewin o Langollen, Sir Ddinbych hyd at bwynt 1,537 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Diben cyflwyno'r terfyn cyflymder 40 mya yw gwella diogelwch ar y ffordd drwy greu parth clustogi rhwng y darn o gefnffordd yr A5 sydd ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i derfyn cyflymder cenedlaethol 60 mya a'r terfyn cyflymder 20 mya drwy dref Llangollen.

Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Berwyn Road, Llangollen, Sir Ddinbych) (Codi Cyfyngiadau) 2002 (O.S. 2002/1291 (Cy. 128)) wedi ei ddirymu.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 8 Tachwedd 2023 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a wnaed a phlan ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy anfon e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1454864.

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A5 TRUNK ROAD (WEST OF LLANGOLLEN, DENBIGHSHIRE) (40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 10 November 2023.

The effect of the Order is to introduce a 40 mph speed limit on the length of the A5 trunk road that extends from a point 231 metres east of the centre-point of its junction with the B5103 at Berwyn, west of Llangollen, Denbighshire to a point 1,537 metres east of the centre-point of that junction.

The introduction of the 40 mph speed limit is intended to improve road safety by creating a buffer zone between the length of the A5 trunk road which is currently subject to a 60 mph national speed limit and the 20 mph speed limit through the town of Llangollen.

The A5 Trunk Road (Berwyn Road, Llangollen, Denbighshire) (De-Restriction) Order 2002 (S.I. 2002/1291 (W. 128)) is revoked.

During a period of 6 weeks from 8 November 2023, a copy of this Notice, the made Order and plan can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained, free of charge, by e-mailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ, quoting reference number qA1454864.

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government